CYNGOR TREF LLANBEDR PS

COFNODION PWYLLGOR LLAWN CYFARFOD CYLLID A GYNHALIWYD AR NOS IAU 10FED IONAWR 2008 AM 7.30PM NEUADD Y DREF LLANBEDR PS

1. CROESO'R CADEIRYDD

Estynwyd croeso gan y cadeirydd, sef Y Maer Chris Thomas, i bawb a oedd yn bresennol. Eglurodd mai pwrpas y cyfarfod oedd penderfynu ar lefel y praesept (treth leol sy'n cael ei hawlio gan y Cyngor Tref), yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

YN BRESENNOL

Y Maer Chris Thomas; Dirprwy-Faer Selwyn Walters, Cecilia Barton, Andrew Carter, Elsie Dafis, Hazel Davies, Margaret Davies-Evans; Greg Evans, Robert (Hag) Harris, Lynda Mason-George, Robert Phillips, Kistiah Ramaya, Dorothy Williams a Derek Wilson.

2. YMMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth y Cyng. John Davies.

3. DATGELU BUDDIANT PERSONOL

Datgelodd y Cyng. Rob Phillips fuddiant personol pan yn trafod y cais cynllunio A071312CD (Pwynt 9 o'r cofnodion)

4. Y PRAESEPT AR GYFER Y FLWYDDYN ARIANNOL NESAF

Penderfynwyd i beidio â chodi lefel y praesept h.y. byddai'n aros yr un peth â'r flwyddyn cynt sef £43,220. Golyga hyn tâl o £48.96 y flwyddyn ar gyfer y Trethdaliwr y Dreth Gyngor, Band D.

5. TYNNWYD SYLW I WEITHGAREDDAU POSIBL ERAILL, Y BYDDAI EFALLAI ANGEN EU HARIANNU, YN YSTOD Y FLWYDDYN ARIANNOL NESAF

5.1 **Canolfan Galw-Mewn ar gyfer yr Ieuenctid:** ni drafodwyd.

5.2 **Cynllun Cittaslow:** nid oedd cyflogi cyd-lynydd yn ddewis poblogaidd.

5.3 **Swyddog Datblygu ar Gyfer y Dref:** Gallai hyn fod yn opsiwn ar gyfer y dyfodol.

5.4 **Gwefan Newydd ar Gyfer y Cyngor Tref:** Gwrthodwyd.

5.5 **Man Cyfarfod ar Gyfer y Cyfarfodydd:** ni drafodwyd.

5.6 **Siopmobility Symudol**: ni drafodwyd.

5.7 **Llogi'r hen gae chwarae'r ysgol gynradd fel amwynder ar gyfer trigolion Llanbedr PS:** trafodaeth yn cymryd lle ar hyn o bryd rhwng y Cyngor Tref a'r Cyngor Sir.

5.8 **Etholiad y Cyngor Tref Mai 2008:** mae'n ofynnol i wneud darpariaeth o £1,000 o fewn y cyllid, ar gyfer y posibilrwydd o gynnal etholiad: nodwyd er gwybodaeth.

5.9 **Canolfan Groeso i Dwristiaid:** ni drafodwyd.

5.10 **Gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Sir Ceredigion ynglŷn â prosiectau:** ni drafodwyd.

5.11 **Hyfforddiant ar Gyfer Clercod a Chynghorwyr:** ni drafodwyd.

5.12 **Cytundebau Cyflog Cenedlaethol (ar gyfer clercod):** ni drafodwyd.

5. CYFRANIADAU AR GYFER ELUSENNAU
Tynnwyd sylw at y ffaith mai £9,024 yw'r uchafswm, (ac nid o reidrwydd), y gall y Cyngor Tref gyfrannu at elusennau. Cyfrannwyd £4,333 o 1 Ebrill i 31 Rhafgyr 2007.

6. ARIAN WRTH GEFN SY'N DDISGWYLEDIG AR Y 31 FAWRTH 2008 YW £124,000.

7. £11,000 (gan gynnwys llog)– A DDERBYNIWYD YN EWYLLUS UN O DRIGOLION LLANBEDR PS A BU FARW (DERBYNIWYD YN EBRILL 2005)
Dylai pob ymdrech gael ei wneud yn ystod y flwyddyn nesaf i wario'r £11,000 ar brosiect werthchweil.

8. CAMERAU CTCC
Tafluniad o'r gost ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf £12,000. Bu'r gost tua £20,000 yn ystod y blynyddoedd olaf

9. UFA- CEISIADAU CYNLLUNIO
Derbyniwyd 3 dyfarniad, fel a ganlyn

Rhif y cais	Ymgeisydd a Lleoliad	Manylion y Cais	Dyfarniad
A071354EL	Western Power Distribution	Llinellau Trydan Llambed i Dregaron	Caniatawyd
A071362	Canolfan Iechyd Llanbedr PS	Codi estyniad	Caniatawyd
A071312CD	CSC Ysgol Uwchradd Llanbedr PS	Mynedfa newydd i'r ysgol a maes-parcio pwll nofio	Caniatawyd

Daeth y cyfarfod i ben am 8.45 pm.

9. **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF: Nos Iau 31ain Ionawr 2008 at 7.30pm**

(Arwyddwyd: Cadeirydd Dyddiad)